

Ar Gyrrion y Dre – Rhys Iorwerth

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
cyrion	ymylon
warysau	adeiladau ar gyfer storio nwyddau
bilbordiau	byrddau arddangos enfawr yn hysbysebu
unffurf	pob un yr un fath â'i gilydd
cwt	sied fach ar gyfer cadw anifeiliaid
di-feth	byth yn methu, bob tro
arswydodd	cafodd hi ofn
dirnad	deall yn iawn (<i>comprehend</i>)
stâd	cyflwr
tsiaen	cadwyn
strach	helynt, trafferth
beth fach	yr hen beth fach, druan
unedau	yr adeiladau unigol sy'n dal pob siop
gwallgofrwydd	y cyfwr o fod yn wallgof (<i>madness</i>)
drachefn	unwaith eto
diffygiodd	methodd

Google Mars – Hywel Griffiths

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
chwyddwydr	gwydr arbennig sy'n gwneud i bethau edrych yn fwy
tirwedd	ffurf y tir
dyffrynnoedd	mwy nag un dyffryn
pegynau	y naill ben a'r llall o blaned
rhwlllyd	yn llawn rhew, oer iawn
ias	teimlad o gryndod (<i>shiver</i>); teimlad o wefr (<i>thrill</i>)
llychlyd	yn llawn llwch
bla'n	blaen

Aros a Mynd – Ceiriog

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
rhuo	gwneud sŵn mawr (<i>roar</i>)
megis	fel
cynt	o'r blaen
y llygad dydd	blodyn bach gwyllt â chanol melyn a phetalau gwynion, llygad y dydd (<i>daisy</i>)
ogylch	o gylch
rhod	olwyn
o rod i rod	o un troad y flwyddyn i'r llall
cenhedlaeth	cyfnod o amser, pawb a anwyd tua'r un cyfnod (<i>generation</i>)
tymhestlog	stormus
Alun Mabon	y bugail neu'r ffermwr Cymreig a Chymraeg traddodiadol (ac arwr cerdd hir o'r un enw; 'Aros a Mynd' yw dau bennill olaf y gerdd enwog 'Alun Mabon')
Alun Mabon mwy nid yw	mae Alun Mabon wedi marw
heniaith (hen iaith)	y Gymraeg
alawon	tonau, caneuon

Cysgod – Sian Owen

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
pared	wal, mur (o fewn tŷ, fel arfer) sy'n cael ei defnyddio i rannu ystafelloedd
edliw	atgoffa rhywun am hen fai neu hen helynt
hy'	hyf, beiddgar, haerllug (<i>bold</i>)
gwyll	cyfnos, y lled dywyllwch sydd rhwng dydd a nos
blinderau	poenau meddwl
arlliw	yr arwydd neu'r ôl lleiaf o rywbeth (<i>trace</i>)
annelwig	aneglur, amhendant
gwae	gofid mawr, ing, trallod (<i>woe</i>)
rhimyn	ymyl allanol
brycheuyn	darn bach o lwch, nam
cynfas	defnydd y mae arlunydd paent-olew yn peintio arno

Fesul Un – Llŷr Gwyn Lewis

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
Tabernacl	enw ar gapel
Llanfyllin	tref yn ngogledd Sir Drefaldwyn
Fesul un	un ar y tro
cymuno	(i) dod i gymdeithasu (ii) dod i'r cymundeb, sef y ddefod arbennig mewn gwasanaeth Cristnogol sy'n cofio am swper olaf Iesu Grist a'i ddisgyblion
addolwyr	y bobl sy'n dod i addoli Duw yn y capel
dilyw	(i) glaw mawr (ii) y llif mawr o ddŵr a foddodd y ddaear yn ôl hanes Noa yn y Beibl (<i>Flood</i>)
Sabothol	yn ymwneud â'r Saboth, sef y diwrnod o'r wythnos sy'n cael ei neilltuo ar gyfer addoli Duw (dydd Sul, fel arfer)
er y gwyddan	er eu bod nhw'n gwybod
tyrfâu	mwy nag un tyrfa neu dorf (<i>crowds</i>)
gwynfyd	byd gwyn, oes well, byd perffaith, nefoedd
cymanfa	(i) cynulliad o bobl (ii) math arbennig o wasanaeth sy'n tynnu torf fawr ynghyd, e.e. Cymanfa Ganu (<i>singing festival</i>)
emynau	caneuon Cristnogol
mynnu	dweud yn benderfynol